**Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd**
**Dydd Iau 30 Ionawr 2020 10:30 – 13:30**
**Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru, Tŷ Canol, Ffordd Croesawdy, y Drenewydd SY16 1AL**

**Cofnodion y Cyfarfod**

Yn bresennol:

| | |
|---|---|
| Jon Sparkes | Prif Weithredwr, Crisis (Cadeirydd) |
| Katie Dalton | Cyfarwyddwr, Cymorth Cymru |
| Peter Mackie | Darllenydd Prifysgol Caerdydd |
| Naomi Alleyne | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, CLlLC |
| Glynne Roberts | Rheolwr y Rhaglen, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Gaynor Toft | Rheolwr Corfforaethol, Tai, Cyngor Ceredigion |
| Lindsay Cordery-Bruce | Prif Weithredwr, The Wallich |
| Clarissa Corbisiero | Cyfarwyddwr Polisi, Cartrefi Cymunedol Cymru |
| Tamsin Stirling | Arbenigwr Tai Llawrydd |
| John Puzey | Prif Weithredwr, Shelter Cymru |
| Bonnie Navarra | Arweinydd Ysgogi Newid, Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol |
| Frances Beecher | Prif Weithredwr, Llamau |
| Nick Morris | Rheolwr Polisi a Chyfathrebu, Crisis |
| Emma Williams | Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Polisi Tai, Llywodraeth Cymru |
| Sarah Rhodes | Pennaeth Digartrefedd, Llywodraeth Cymru |
| Mark Price | Arweinydd Prosiect ac Ysgrifenyddiaeth y Grŵp, Llywodraeth Cymru |

Ymddiheuriadau:

| | |
|---|---|
| Clare Budden | Prif Swyddog Gweithredol, Cymdeithas Tai Clwyd Alyn |

Croesawodd JS bawb i wythfed cyfarfod y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd a nodwyd yr ymddiheuriad.

Diben y cyfarfod oedd ystyried yr adroddiad drafft yn gosod yr argymhellion ar gyfer cwestiwn un – fframwaith cyffredinol o bolisïau a dulliau i roi diwedd ar ddigartrefedd.

Ystyriwyd yr adroddiad drafft presennol o ran a oedd angen diwygio, addasu neu gryfhau'r argymhellion. Ystyriodd y grŵp y canlynol hefyd: blaenoriaethu argymhellion i nodau tymor byr, tymor canolig a hirdymor, neu gyflymder cyflawni; cryfhau'r cyflwyniad; ychwanegu rhagor o fanylion am bwerau lles presennol Llywodraeth Cymru; ychwanegu rhagor o fanylion am newid diwylliant ac ymestyn gweithgarwch atal gwasanaethau cyhoeddus o'r pwynt 56 diwrnod statudol; graddfa (ariannol) y buddsoddiad angenrheidiol; rhagor o bwyslais ar ymyrraeth gynnar ac atal; gofynion atebolrwydd yn erbyn cyflawni i roi diwedd ar ddigartrefedd.

Bydd yr adroddiad hefyd yn ystyried sut y gallai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ystyried amser ymateb cyflymach mewn achosion pan nad yw pobl yn iach (hynny yw materion iechyd meddwl) er mwyn osgoi troi pobl o'u cartrefi i fod yn ddigartref, ac ystyried llwybrau yn llawn ac atgyfeirio at ymyriadau angenrheidiol (hynny yw ar gyfer y rhai sy'n gadael y carchar neu adael gofal).

Cytunwyd y byddai rhai o'r argymhellion yn pennu'r peirianwaith neu'r dull gofynnol i roi'r argymhelliad ar waith, tra byddai eraill yn nodi bod angen dod o hyd i beirianwaith.

Yn dilyn trafodaeth grŵp, lle cytunwyd ar gonsensws ynghylch drafftio'r argymhellion, y cam nesaf yw cwblhau'r adroddiad a'i gyflwyno i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ym mis Chwefror. Bydd yn parhau i gael ei ystyried fel adroddiad drafft nes bod y gwaith profiad bywyd wedi'i gwblhau a'i ychwanegu. Bydd y gweithdai profiad bywyd wedi'u cwblhau erbyn canol i ddiwedd mis Chwefror.

**Mark Price**
**Is-adran Polisi Tai**
**Llywodraeth Cymru**